

## **Adroddiad Ôl Ymgynghori**

### **Hamadryad - Avondale Road – Cyfleusterau i Gerddwyr**

**Rhif y Project: CO17120**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 23 Mawrth a 27 Ebrill 2018 a'i ddiben oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol os yn bosibl. Derbyniwyd pump ymateb gan aelodau'r cyhoedd, sydd wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- 1 Yn erbyn y cynllun arfaethedig
- Gwnaeth 4 o'r unigolion drafod sylwadau ychwanegol sydd wedi'u hamlygu uchod.

Mae'r sylwadau ac ymatebion Cyngor Caerdydd wedi'u crynhoi isod. At ddibenion diogelu data, ni ddangosir y sylwadau'n llawn, ond mae'r prif bwyntiau wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, mae'r ymateb yn ystyried cynnwys llawn y sylwadau a dderbyniwyd.

### **Argymhelliad**

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid fydd ar gael. Bydd hyn yn golygu uwchraddio'r croesfan sebra ddyrchafedig presennol ar Bont Clarence Road drwy gyflwyno croesfan beiciau ochr yn ochr â lleoliad y croesfan i gerddwyr presennol.

## **Pryderon/Sylwadau a Dderbyniwyd:**

Nodir sylwadau'r ymgynghoriad mewn ffont *italeg* gydag ymatebion Cyngor Caerdydd mewn print arferol.

**Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:**

### **Sylw 1.1:**

*“Does dim o’i le â’r mynediad na’r gweledd o Avondale Gardens at Avondale Road, os ydych am wneud Avondale Road yn fwy diogel, mae angen camera cyflymder ond wrth gwrs, does gennyh ddim diddordeb mewn hynny”*

Mae'r newidiadau arfaethedig i gyffordd Avondale Road / Avondale Gardens yn cynnwys cyflwyno cyrbiau is ger y gyffordd a hefyd palmant botymog, fydd hyn yn creu llwybr ddiogel i gerddwyr ar y llwybr hon. Bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn annog cerddwyr i gerdded i'r ysgol, sy'n hyrwyddo teithio llesol. Nod y cyrbau is a'r palmant botymog yw gwella mynediad i ddefnyddwyr mewn cadeiriau olwyn a ddefnyddwyr y llwybr sy'n rhannol ddall.

Ni gyflwynir camerâu cyflymder gan Gyngor Caerdydd, maent yn cael eu gweithredu gan Bartneriaeth Lleihau Damweiniau Cymru (a elwir yn GoSafe [www.gosafe.org](http://www.gosafe.org)) a chânt eu darparu'n unol â meini prawf a nodir yn eu dogfen Meini Prawf Safle.

Gall camerâu gael eu defnyddio mewn un o dri achos: os yw pobl wedi'u lladd neu eu hanafu'n ddifrifol; mewn safleoedd sy'n peri pryder i'r gymuned ac os yw arolwg yn cadarnhau problem gyrru difrifol ac yn rhan o waith arbennig megis gwaith ffordd neu ymgyrchoedd addysgol.

Gallech gofrestru eich pryderon ar safle GoSafe dan Cysylltwch â Ni > Pryder Cymunedol ac yna bydd GoSafe yn ymchwilio i'r mater.

**Mae'r isod yn sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sy'n ymwneud â materion eraill yn deillio o'r ymgynghoriad:**

### **Sylw 1.2:**

*“Rwy'n byw yn Kent Street ers XX mlynedd ac yn ystod yr amser hwnnw rwyf wedi gweld y sefyllfa parcio'n mynd yn anos oherwydd nifer cynyddol y ceir dros y blynyddoedd. Rwy'n poeni y bydd y gwelliannau arfaethedig yn golygu colli nifer fawr o fannau parcio. A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi faint o fannau parcio yr ydych yn disgwyl eu colli gan y 'gwaith gwella' a pha opsiynau eraill sydd ar gael i mi o ran parcio?”*

Bydd y rhwystrau ymwthiol arfaethedig ar gyfer cyffordd Kent Street yn gwaredu ar ychydig iawn o lefydd parcio. Mae parcio fel hyn yn mynd yn groes i ganllawiau Rheolau'r Ffordd Fawr sy'n argymhell nad yw gyrwyr yn parcio o fewn 10 metr i gyffordd, mae hefyd yn argymhell na ddylai gyrwyr yrru ar ffordd lle y byddai'n peryglu, rhwystro neu'n anhwylyd i gerddwyr neu ddefnyddwyr eraill y ffordd. Felly, bydd unrhyw gerbyd sy'n parcio o fewn 10 metr o'r gyffordd ar hyn o bryd yn cael ei ystyried yn barcio anghyfreithiol neu anniogel. Gallaf gadarnhau y bydd y rhwystrau ymwthiol ar gyfer Kent Street yn gwaredu oddeutu 10 metr o barcio cyfreithiol/diogel, mae hyn oddeutu dau gerbyd.

### **Sylw 1.3:**

*Fel preswylwyr yn Avondale Road, rydym yn bryderus iawn nad yw'r Gwelliannau Mynediad Avondale Road yn ddigonol mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd i gerddwyr a phreswylwyr. Mae Avondale Road wedi dod yn llwybr gymudo prysur iawn. Yn 2017, sefydlwyd llwybrau bysus newydd ar hyd Avondale Road, gan ychwanegu at nifer y symudiadau traffig. Gallwch weld pobl yn goryrru bob adeg o'r diwrnod, gan ei gwneud hi'n beryglus dros ben i blant lleol. Bydd siwrneiau i Ysgol Hamadryad yn gwaethygu'r broblem, yn benodol ger Ysgol Feithrin Grangetown. Mae hefyd o leiaf un achos diweddar lle mae traffig yn goryrru wedi taro car yn gadael ei ddreif.*

*Rydym o'r farn nad oes modd cyflawni'r mynediad 'diogel a hwylus' arfaethedig sy'n rhan o'r cynllun heb fesurau arafu traffig, gan gynnwys dyrchafu dau o'r croesfannau cerddwyr presennol, byrddau arafu ychwanegol a gostyngiad yn y lle ar y lôn. Byddai hyn yn fwy buddiol i'r gymuned, a dylid ei flaenoriaethu dros y rhwystrau ymwithiol arfaethedig ger y gyffordd. Yn 2014, gwnaeth Cyngor Dinas Caerdydd adnabod Avondale Road yn 'Ardal Bryder' oedd yn gofyn am osod mesurau arafu traffig. Awgrymodd y Cyngor y dylid dyrchafu'r groesfan bresennol y tu allan i 13 Avondale Road i helpu i arafu cyflymder y traffig. Nid yw hyn wedi'i wneud eto, a dylai fod yn rhan o'r cynllun uchod.*

Yn rhan o'r gwaith cynllunio cychwynnol ynglŷn ag Ysgol Hamadryad, cafwyd trafodaethau rhwng Projectau, Trafnidiaeth a Chynllunio ynghylch sut y dylid dyrannu cyllid o fewn ardal gyfagos yr Ysgol arfaethedig. Gan mai dim ond ychydig o gyllid oedd ar gael, cytunwyd mai'r brif flaenoriaeth ar gyfer y cyllid fyddai cyflwyno cyfleusterau newydd yn ardal yr ysgol, ac yna byddai cyfleusterau ar gyfer yr ardal ehangach yn cael eu cyflwyno pan oedd digon o gyllid ar gael.

Felly, mae mesurau arafu traffig ar gyfer Avondale Road yn dal i fod ar y rhestr Ardal Bryder pe byddai cyllid ychwanegol ar gael i'r maes hwn.

Fodd bynnag, hoffwn roi gwybod i chi bod ein Tîm Gweledigaeth, Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth wedi adnabod bod Avondale Road yn un o'r ffyrdd fydd wedi'i chynnwys yn ardal 20mya Grangetown. Bydd cyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya ar Avondale Road hefyd yn cynnwys gosod mesurau arafu traffig, mae'r cynllun 20mya ar raglen i'r dyfodol a bydd yn cael ei gyflwyno wrth i'r cyllid ddod ar gael.